| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 13eg Chwefror 2025 |
| **TEITL** | Cyfundrefn Addysg Drochi |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg-Derbyn diweddariad am y broses werthuso |
| **AWDUR** | Rhys Meredydd Glyn, Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dewi Jones |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

**1.1** Craffwyd y weledigaeth ar gyfer y gyfundrefn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Mehefin 2021.

**1.2** Bu i aelodau'r Pwyllgor adnabod yr angen i graffu gweithrediad y gyfundrefn newydd pan yn amserol.

**1.3** Bydd gwerthusiad o'r gyfundrefn yn dilyn cyflwyno'r trefniadau newydd yn Ionawr 2023 yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

**1.4** Derbyniwyd cais gan y Cynghorydd Rhys Tudur i graffu effaith y cwtogiad yn nyddiau'r cyfnod trochi. Hefyd, i edrych yn fanwl ar amseriad y cyfnod trochi ynghyd ag effaith ieithyddol y cwtogiad.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

**2.1** Bwriad yr adroddiad yma yw cyflwyno diweddariad am y broses werthuso yng nghyd-destun y Gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi.

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

**3.1** Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad parthed y Gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

**4.1** Mae Gwynedd wedi ei gydnabod erioed fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, a'r Cyngor yn ymfalchïo yn ei weledigaeth gadarn a'i uchelgais i sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn datblygu'n ddinasyddion hyfedr ddwyieithog ac yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

**4.2** Polisi Iaith y sir yw'r cerbyd sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r uchelgais hon yn ysgolion y sir, ac i sicrhau bod y polisi hwnnw'n gynhwysol agorwyd unedau trochi iaith yng Ngwynedd ddeugain mlynedd yn ôl ym 1984. Bryd hynny roedd pedair canolfan ar

gyfer trochi hwyrddyfodiaid yn y sector Gynradd. Yn dilyn llwyddiant ysgubol y canolfannau hyn ugain mlynedd yn ddiweddarach agorwyd canolfan ar gyfer dysgwyr Uwchradd ar safle Ysgol Eifionydd. Bu’r canolfannau cynradd ac uwchradd yn gwasanaethu a chefnogi miloedd o blant i gaffael y Gymraeg dros y blynyddoedd.

**4.3** Fodd bynnag yn eu cyfarfod ar Orffennaf 16eg 2021 penderfynodd Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd ei bod hi’n amserol i ad-drefnu’r canolfannau rhain a chreu Cyfundrefn Addysg Drochi newydd o’r radd flaenaf i gynnwys chwe uned drochi, tair ohonynt ar gyfer dysgwyr cynradd o flwyddyn 2 i 4 a thair canolfan arall yn pontio rhwng y cynradd a’r uwchradd ar gyfer dysgwyr o flwyddyn 5 i flwyddyn 9. Lleolwyd y canolfannau hyn mewn ardaloedd strategol yn ieithyddol ar draws y rhanbarthau, Maesincla a Thryfan yn Arfon, Pwllheli ac Eifionydd yn Nwyfor a Dolgellau a Thywyn ym Meirion. Yn ogystal mabwysiadwyd strwythur staffio newydd i gynnwys Pennaeth, Dirprwy, 6 o Athrawon a 6 Uwch Gymhorthydd.

**4.4** Un ffactor allweddol oedd wrth wraidd y penderfyniad hwn dros newid oedd llesiant dysgwyr a’r angen iddynt gadw mewn cyswllt hefo eu cyfoedion a’r fam ysgol yn ystod y cwrs. I’r perwyl hwn addaswyd y cyrsiau trochi i gynnwys un diwrnod wythnosol yn y prif lif gyda chefnogaeth staff yr unedau trochi.

**4.5** Yn dilyn buddsoddiad arian cyfalaf Llywodraeth Cymru sefydlwyd y Gyfundrefn Addysg Drochi ar ei newydd wedd yn Ionawr 2023. Ystyrir y Gyfundrefn yn greiddiol i greu siaradwyr Cymraeg newydd yng Ngwynedd trwy:

- ddarparu addysg drochi arloesol a rhagorol i newydd-ddyfodiaid y Sir fydd yn eu galluogi i ffynnu gyda’u cyfoedion yn ein cyfundrefn addysg ddwyieithog a thrwy hynny eu bod yn llwyddo i ymdoddi i gymdeithas Gymraeg a Chymreig eu hysgol leol heb deimlo eu bod yn ‘wahanol’ neu wedi eu heithrio o brofiadau arferol eu cyfoedion;
- darparu cefnogaeth i deuluoedd gofleidio’r Gymraeg, cefnogi addysg eu plant, ac elwa o brofiadau diwylliannol a chymunedol drwy gyfrwng Y Gymraeg;
- cefnogi ac arfogi ein hysgolion i feithrin sgiliau a hyder ein dysgwyr yn Y Gymraeg;
- cefnogi ac arfogi ein hysgolion i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at Y Gymraeg.

## 5. Comisiynu

**5.1** Yn dilyn proses gystadleuol iawn dewiswyd Tîm Ymchwil Prifysgol Bangor i werthuso’r Gyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd. Gweler isod y cynllun ymchwil yn ei gyfanrwydd. Mae’r 4 cwestiwn isod yn amlygu’r trywyddau ymholi fydd yn gosod cyfeiriad i’r Gwerthusiad.

1. Pa mor addas ac effeithiol ydy’r model wrth sicrhau defnydd disgyblion o’r iaith darged pan fyddant yn dychwelyd i’r ysgol prif-ffrwd? (4 diwrnod yn yr unedau trochi a diwrnod pontio yn y prif-lif)
2. Pa mor effeithiol ydy’r model o safbwynt galluogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg yn ddigonol ac i’w llawn potensial?

3. Oes cyfleoedd i gryfhau’r Gymraeg ymhellach yn y Gyfundrefn Drochi ac yn yr Ysgolion prif-ffrwd?
4. Pa mor addas ac effeithiol ydy’r model wrth ystyried llesiant y disgyblion yn ystod y cyfnod trochi?

**5.2** Tîm ymchwil: Dr Lowri Mair Jones (Prif Ymchwilydd), Dr Margiad Williams, Dr Anwen Jones, Yr Athro Enlli Thomas.

## 6. Cyflwyniad

**6.1** Nod yr astudiaeth achos gynhwysfawr hon yw gwerthuso effaith a chraffu ar ddarpariaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi bresennol i weld os ydyw yn cyflawni’r addewid ac yn rhoi’r sylfaen angenrheidiol i ddisgyblion yng Ngwynedd gaffael y Gymraeg wrth gychwyn ar eu taith ieithyddol i ddod yn siaradwyr newydd.

## 7. Adolygiad Llenyddol

**7.1** Cynnal adolygiad llenyddiaeth fanwl yn edrych ar dueddiadau rhyngwladol presennol ym maes addysg drochi iaith, gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd modelau trochi wrth hyrwyddo caffael iaith a dwyieithrwydd. Bydd yr adolygiad llenyddol yn fframio y fethodoleg ymchwil, yn cynnwys:

- Dylunio Teclyn Arsylwi
- Dylunio Holiaduron
- Dylunio Trywyddau Holi grwpiau ffocws
- Dadansoddiad thematig

**7.2** Archwilio astudiaethau sy’n ymwneud yn benodol â rhaglenni trochi yn y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol.

**7.3** Nodi bylchau mewn ymchwil gyfredol ble mae'r astudiaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

## 8. Adolygiad Polisi

**8.1** Dadansoddi polisïau a mentrau addysgol perthnasol sy'n ymwneud ag addysg drochi'r Gymraeg ac addysg drochi mewn ieithoedd lleiafrifol o fewn y cyd-destun rhyngwladol.

**8.2** Gwerthuso’r cysylltiad rhwng amcanion polisi a gweithredu rhaglenni trochi, gan nodi unrhyw heriau neu rwystrau wrth roi polisïau ar waith yn effeithiol.

## 9. Dyluniad yr Ymchwil

### 9.1 Astudiaeth Achos


**9.1.1** Bydd Astudiaeth Achos fanwl yn cael ei chynnal er mwyn medru tynnu ar ddata holistaidd fydd yn cynnig darlun cynhwysfawr o'r model trochi a'i effaith ar ddefnydd iaith disgyblion, ynghyd ag agweddau rhieni, disgyblion ac addysgwyr.

**9.1.2** Bydd astudiaeth achos strwythuredig sy'n tynnu ar ddata naturiol (Bailey, 1978) yn cael ei llunio. Bydd yr astudiaeth achos yn golygu casglu data cymysg, fydd yn cynnig gwerthusiad manwl ar draws y pedair canolfan drochi.

### 9.2 Cam 1: Arsylwadau

**9.2.1** Arsylwi taith tri disgybl drwy'r model trochi yn y pedair Canolfan Iaith wahanol. Bydd pob cylch arsylwi yn cynnwys tri arsylwad ffurfiol, gweler Ffigwr 1.

Ffigwr 1 - Proses arsylwi'r model Trochi Deg Wythnos




**9.2.2** Arsylwi disgyblion ar bedwar pwynt o fewn cyfnod o ddeg wythnos. Bydd dau o'r arsylwadau yn digwydd yn y Ganolfan Iaith a dau arsylwad yn digwydd yn yr ysgol prif-ffrwd.

**9.2.3** Edrych ar yr agweddau canlynol yn benodol wrth arsylwi er mwyn cael darlun holistaidd o ddefnydd disgyblion o'r iaith darged mewn gwahanol gyd-destunau, ynghyd ag agweddau gwahanol ran-ddeiliaid tuag at y ddarpariaeth drochi.

- Datblygu Teclyn Arsylwi ar sail tystiolaeth er mwyn craffu ar y canlynol:
- Perthynas cyfoedion
- Dylanwadau ar ddefnydd iaith mewn cyd-destun ffurfiol ac anffurfiol
- Parhad defnydd o'r iaith darged wrth ddatblygu ar hyd y daith drochi
- Agweddau ar les disgyblion

## 9.3 Cam 2: Grwpiau Ffocws (Athrawon)

**9.3.1** Bydd grŵp ffocws yn cael ei gynnal gydag athrawon y canolfannau, a tri grŵp ffocws yn cael eu cynnal gyda staff yr ysgolion prif-ffrwd.

**9.3.2** Bydd y grŵp ffocws yn archwilio canfyddiadau Staff o fewn y Ganolfan Drochi a'r Ysgol Prif-ffrwd o effeithlonrwydd y model trochi a datblygiad a lles y disgyblion sy'n derbyn addysg drochi fel rhan o'r model 10 wythnos.

Bydd y grŵp ffocws yn archwilio canfyddiadau'r addysgwyr o:

- Ddefnydd disgyblion o'r iaith darged
- Effeithiolrwydd y model trochi(4 diwrnod yn yr unedau trochi a diwrnod pontio yn y prif-lif)
- Model staffio
- Unrhyw drywyddau ymchwil eraill sy'n codi yn ystod yr Astudiaeth Achos.

## 9.4 Cam 3: Grwpiau Ffocws Disgyblion sy'n ymgymryd â'r rhaglen drochi

**9.4.1** Cynnal grwp ffocws gyda tri disgybl sy'n rhan o'r ddarpariaeth drochi, gan archwilio eu profiadau a'u canfyddiadau o fod yn rhan o'r rhaglen drochi. Bydd y grŵp ffocws yn archwilio:

- Agweddau at yr iaith
- Agweddau tuag at y rhaglen drochi
- Agweddau at fynychu dau leoliad addysg am gyfnod
- Agweddau tuag at ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol
- Agweddau o amgylch lles.

## 9.5 Cam 4: Holiadur yn archwilio agweddau rhieni

**9.5.1** Byddwn yn rhannu holiadur gyda rhieni/gwarcheidwaid, yn canolbwyntio ar eu safbwyntiau ar y rhaglen drochi a datblygiad iaith a lles eu plant wrth fynd drwy'r daith drochi.

## 9.6 Cam 5: Data Meintiol

**9.6.1** Craffu ar ddata meintiol sydd ar gael, sy'n arddangos cynnydd disgyblion sy'n derbyn addysg drochi yng Ngwynedd. Bydd craffu ar y data hwn yn galluogi'r ymchwilwyr driongli unrhyw ganlyniadau meintiol yn erbyn data ansoddol, er mwyn llunio astudiaeth achos gyflawn a chynhwysfawr o'r ddarpariaeth drochi. Dangosir yn y tabl isod sut mae'r dulliau ymchwil yn archwilio'r cwestiynau ymchwil.

| **Cwestiynau ymchwil** | **Dulliau:** |
|---|---|
| Pa mor addas ac effeithiol ydy'r model 4 diwrnod yn yr uned drochi ac 1 diwrnod pontio yn ôl yn y prif-lif, wrth sicrhau defnydd disgyblion o'r iaith darged pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol prif-ffrwd? | Arsylwadau<br><br>Grwpiau ffocws |
| Pa mor effeithiol ydy'r model 4 diwrnod yn yr uned drochi ac 1 diwrnod pontio yn ôl yn y prif-lif o safbwynt galluogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg yn ddigonol ac i'w llawn potensial? | Arsylwadau<br><br>Grwpiau ffocws<br><br>Holiadur rhieni<br><br>Data meintiol |
| Oes cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg ymhellach yn y Gyfundrefn Drochi ac yn yr Ysgolion prif-ffrwd? | Grwpiau ffocws<br><br>Holiadur rhieni |
| Pa mor addas ac effeithiol ydy'r model  wrth ystyried llesiant y disgyblion yn ystod y cyfnod trochi? 4 diwrnod yn yr unedau trochi a diwrnod pontio yn y prif-lif) | Arsylwadau<br><br>Grwpiau ffocws<br><br>Holiadur rhieni |

### 9.7 Dulliau Dadansoddiad Data

**9.7.1** Cyflwyno Astudiaeth achos gynhwysfawr yn dadansoddi'r data ansoddol drwy ddadansoddiad thematig.

**9.7.2** Tynnu ar unrhyw dueddiadau yn y data meintiol i gynnig darlun cyflawn er mwyn ateb y cwestiynau ymchwil.

### 9.8 Canlyniadau Posib

**9.8.1** Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnig tystiolaeth ymchwil gadarn ar effeithlonrwydd y model trochi yng Ngwynedd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer datblygiadau a gwelliannau posib yng Ngwynedd a thu hwnt ar gyfer y dyfodol.

**9.8.2** Mae'r dyluniad yr ymchwil yn cynnig fframwaith gynhwysfawr ar gyfer ymchwilio i effeithiolrwydd y model trochi yng Ngwynedd, ynghyd ag ystyriaethau pellach sydd wedi eu hamlygu yn y cwestiynau ymchwil.

**9.8.3** Gellir addasu'r brîff yn ôl yr angen yn ystod y cyfnod gweithredu er mwyn ateb unrhyw heriau neu gyfleoedd nas rhagwelwyd.

## 9.9. Disgwyliadau Cyngor Gwynedd

**9.9.1** Er mwyn sicrhau gwerth am arian, byddwn yn gofyn i staff y cyngor am gefnogaeth wrth gyfathrebu gyda'r canolfannau iaith i gydlynu ymweliadau, ac i rannu holiaduron/ trefnu cyfweliadau.

## 10. Amserlen

| | **Cam Gweithredu** |
|---|---|
| **Awst 2024** | Adolygiad Llenyddol a Pholisi, datblygu'r Teclyn arsylwi a'r holiadur rhieni |
| **Awst- Hydref 2024** | Arsylwadau mewn Canolfannau Iaith ac Ysgolion Prif-Ffrwd |
| **Tachwedd 2024** | Grwp Ffocws<br><br>Cyfweliadau |
| **Rhagfyr 2024** | Dadansoddiad data |
| **Ionawr –Chwefror 2025** | Ysgrifennu'r Adroddiad. |
| **Mawrth 2025** | Cyflwyno Adroddiad Cyflawn |

## 11. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**11.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.

**11.2** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

**11.3** O ran **cydweithio a chynnwys** eraill, rydym eisoes wedi cynnal grwpiau ffocws hefo rhieni, dysgwyr, staff a phenaethiaid ysgolion Gwynedd ac wedi derbyn sylwadau gan unigolion yn cynrychioli Mudiadau Iaith.

**11.4** Mae cynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi yn **cydnabod yr angen adnabod cryfderau a materion i'w gwella** i sicrhau gwasanaeth gorau posib i drigolion Gwynedd.

**11.5** Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn datblygu'n ddinasyddion hyderus dwyieithog yn gwella cyfleoedd iddynt yn addysgol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yn yr **hirdymor** ac yn cyfoethogi eu profiad o fyw a gweithio trwy'r Gymraeg yng Ngwynedd.

**11.6** Mae grymuso Cyfundrefn Addysg Drochi y sir yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu dinasyddion dwyieithog ac yn cydymffurfio hefo statws yr iaith Gymraeg yng nghyd-destun Cyrff Cyhoeddus.

## 12. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

**12.1** Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn ymateb i'r gwaith ymgysylltu sy'n ymwneud â'r Gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi. Fodd bynnag, bydd disgwyl llunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cyngor fel rhan o werthuso'r Gyfundrefn Drochi. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau a dderbynnir fel rhan o'r ymgysylltu.

## 13. Camau Nesaf

**13.1** Yn dilyn y broses Werthuso bydd swyddogion yr Adran Addysg yn llunio Cynllun Gweithredu i ymateb i argymhellion yr adroddiad terfynol.

**13.2** Bwriedir cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Argymhellion Gwella ac amserlen fanwl i'r dod Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y 10fed Ebrill 2025.

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Cwestiynau Ychwanegol
Atodiad 2 - Holiadur Cyfweliadau Athrawon a phenaethiaid Prif Ffrwd
Atodiad 3 - Offeryn Grwpiau Ffocws
Atodiad 4 - Holiadur Rhieni